# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Rhaglen Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 4ydd o Fai 2023 yn brydlon am 7:00 y.h. yng Nghapel Pencaenewydd, a drwy Zoom.**

## Cyfarfod Blynyddol (i gychwyn 7.00 y.h. am yr 20 munud cyntaf)

1. Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod blynyddol 12ed o Fai, 2022.

3. Materion yn codi o'r cofnodion.

4. Adroddiad ar waith y flwyddyn rhwng 1af o Ebrill, 2022 i'r 31ain o Fawrth, 2023 gan y Cadeirydd.

5. Adroddiad Ariannol am y flwyddyn 1af o Ebrill, 2022 i'r 31ain o Fawrth, 2023 gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Derbyn y cyfrifon am y flwyddyn.

6. Cyfle i'r trethdalwyr ofyn cwestiynau.

7. Ethol swyddogion am y flwyddyn hyd at 31ain o Fawrth, 2024:
   a) **Cadeirydd**/(bydd angen trefnu i lofnodi datgan derbyn swydd).
   b) **Is gadeirydd**/(bydd angen trefnu i lofnodi datgan derbyn swydd).
   c) **Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol** - aros yr un fath/dim newid.
   ch) **Elusen William Ellis**, Llanystumdwy, - Cynghorwyr Ward Llanystumdwy i gyd.

8. Cadarnhau a oes angen newid unrhyw aelodaeth o bwyllgorau'r Cyngor.

9. Dewis cynrychiolydd i:-
Pwyllgor Rhanbarth Un Llais Cymru – Is-gadeirydd.
Grwp Mynediad Dwyfor

## CYFARFOD ARFEROL Y CYNGOR (i gychwyn tua 7:20 y.h.)

**Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 4ydd o Fai 2023 yn brydlon am 7:20 y.h. Nghapel Pencaenewydd, a drwy Zoom.**

1. Ymddiheuriadau.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 6ed o Ebrill 2023.

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Ebrill 2023 –

4. **Datgan buddiant personol.**

5. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

**Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Mai 2023**

| Rhif y Ffordd | Lleoliad Gwaith | Disgrifiad o'r Gwaith | Gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| B4354 | Adwy Ffatri Laeth, Rhydygwystl | Draeniad | Priffyrdd |
| | Tyddyn Gwyn, Rhoslan | Atgyweirio ochr ffordd | Priffyrdd |
| | Castellcoed – Rhydygwystl | Arwisgo | Priffyrdd |
| | Ty'n Lôn Isaf, Llangybi | Arwisgo | Priffyrdd |
| | Llanarmon – Groeslon Dilwyn | Arwisgo | Priffyrdd |
| | Gwenallt, Llangybi | Arwisgo | Priffyrdd |
| | Bryn Llefrith Uchaf, Llangybi | Arwisgo | Priffyrdd |

6. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**
**a) Cais rhif: C23/0300/41/DT - Tyn Ddôl, Llanystumdwy,**
Dymchwel adeilad allanol presennol a chodi anecs Taid a Nain

**b) Cais rhif: C23/0335/41/LL - Cyngor Gwynedd, Depo Priffyrdd, Chwilog,**
Newid lleoliad mynedfa gerbydol er creu mannau parcio ychwanegol a gwella diogelwch safle trwy wahanu traffig y swyddfa a'r depo.

7. **Sedd wag** – mae angen un Cynghorydd yn Ward Llangybi. Mae'r Clerc wed gosod posteri yn y Ward, ac ar y safle Wé i holi os oes gan rywun ddiddordeb. Mae un person wedi dangos diddordeb felly mae angen gwneud penderfyniad i gyfethol aelod newydd.

**Materion yn y gymuned**.

8. **Llanystumdwy**
a) **Mainc** – Clerc wedi derbyn ateb gan y cwmni yswiriant Zurich, ac maent wedi cadarnhau y gall y polisi gael ei effeithio pan fydd yn cael ei adnewyddu flwyddyn nesaf, hefo'r 'premiwm' yn cynyddu, ond nad oedd yn gallu cadarnhau hynny'n iawn eto. Maent wedi gofyn am bris i brynu mainc newydd yr un fath a'r llall i'w adnewyddu, a byddai angen tynnu £100.00 o'r pris y byddant yn ei gynnig i ni. Y Clerc wedi cael pris newydd ac wedi ei anfon atyn nhw. Disgwyl am ateb ganddynt.

b) **Pont Llanystumdwy** – mae canclwm wedi dechrau tyfu yno eto, felly bydd angen trefnu i'w chwistrellu.

9. **Rhoslan/Ynys**

10. **Chwilog**
**a) Llinellau melyn ger Lon y Plas**
Derbyniwyd gwybodaeth gan Mr Jon Howes, yn gofyn am farn y Cyngor Cymuned dros ofyn am roi llinellau melyn dwbl gyferbyn â Lon y Plas, sef i gyfeiriad Y Ffor wrth ddod o stad Cae

Capel. Mae hyn oherwydd ei fod yn bryderus na fedr gwasanaethau brys gael mynediad cyflym i Lon y Plas, os oes ceir wedi parcio yno.

**b) Arwyddion brown Lon Goed a Thraeth Afonwen**

Derbyniwyd y wybodaeth isod gan Mr Alun Fon Williams, Gwasnaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau, Cyngor Gwynedd.

**"Cais : Lon Goed**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ac arwyddocâd arwyddo y Lon Goed yn enwedig o ystyried y diddordeb fydd yn codi yr haf 'ma oherwydd y cyswllt a'r Eisteddfod, er hyn yn dilyn trafodaeth a'r gwasanaeth traffig mae sawl rhwystr wedi ei adnabod efo'r cais sydd yn golygu na allwn ei awdurdodi fel ag y mae.

Y brif broblem ydi nad oes safle / lleoliad addas i gyfeirio traffig er mwyn parcio wedi ei adnabod. Cydnabod bod lleoliad parcio 'answyddogol' sydd yn cael eu defnyddio gan ddefnyddwyr y Lon Goed ond nid yw yn addas na chyfrifol i ni fod yn arwyddo traffig oddi ar y A497 ir safle yma ar gyfer parcio. Nid ydym yn credu fod digon o gapasiti parcio addas yno. Mae arwyddo'r Lon Goed oddi ar y A497 yn mynd i greu diddordeb, mae ymwelwyr yn chwilfrydig. Mae peryg i hyrwyddo argaeledd parcio yn y lleoliad 'answyddogol' yma greu sawl problem i drigolion lleol a gwasanaethau brys.

Be fydda yn datrys y broblem ydi gallu arwyddo traffig i faes parcio neu leoliad parcio addas sydd a capiasit digonol. Rydym wedi trafod y mater yn fewnol efo'r gwasanaeth traffig a mae'n ymddangos fod opsiynau yn brin. Rydym yn hapus i drafod gyda chi ac yn agored i unrhyw syniadau / opsiynau fyddai gan y Cyngor Cymuned. Mae yn opsiwn hefyd i arwyddo dros dro e.e. petai ffermwr lleol yn caniatáu i chi ddefnyddio tir dros gyfnod yr eisteddfod?

**Cais : Afonwen**

Yn anffodus mae'r cais yma hefyd yn disgyn i'r un cae. Does dim safle / lleoliad addas i gyfeirio traffig er mwyn parcio. Derbyn fod yna le 'answyddogol' i oddeutu 2 gar barcio o dan y bont rheilffordd ond nid yw yn addas na chyfrifol i ni fod yn arwyddo traffig oddi ar y A497 i'r traeth oherwydd yr oblygiadau parcio. Mae peryg y byddai arwyddo traeth Afonwen yn creu sawl problem i drigolion lleol a gwasanaethau brys. Yn anffodus ni allwn gefnogi a awdurdodi y cais am y rhesymau sydd wedi ei nodi. Hapus i gael sgwrs bellach yn enwedig o ran ceisio cael datrysiad i gais Y Lon Goed". **Angen trafod.**

11. **Pencaenewydd/Sardis**

**Clwb Ffermwyr Ifanc, Llangybi** – derbyniwyd ebost yn cynnig gwneud rhywbeth i helpu yn yr ardal leol, fel peintio safle bws Llangybi flwyddyn diwethaf. Roeddent yn dweud fod y Cyngor yn hael iawn yn rhoi rhodd ariannol i'w helpu nhw bob blwyddyn, ac eisiau cynnig unrhyw help i'r gymuned. **Angen trafod.**

12. **Llangybi**

**Cae Chwarae** – yn dilyn derbyn adroddiad gan 'Fields in Trust' llynedd, a derbyn gwybodaeth gan y Cadeirydd, mae'r matiau du sydd yno angen sylw eto ac yn colli ei lliw ar esgidiau plant. **Angen trafod.**

13. **Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2023 ymlaen**.

a. Llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.
b. Llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.
c. Llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.
ch. Llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi.

e.  Cadw safle bedd D. Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor.

f. **Maenywern, Llanystumdwy** – gwaith clirio tir y Cyngor ger y bont ac ar hyd y wal i fyny tuag at y Bedd.
***Hysbyseb wedi cael ei roi ar y wefan, Y Ffynnon a'r hysbysfyrddau i gael prisiau, hefo dyddiad cau 30.04.2023, er mwyn ei trafod yn y cyfarfod 4 Mai 2023.***

ff. **Cytundeb torri Cae Chwarae Llangybi** (*cytundeb 3 mlynedd eisioes wedi ei wneud rhwng Ebrill 2021-diwedd Mawrth 2024).*
g. **Glanhau llochesi bws** – angen cytundeb newydd o Ebrill 2023 ymlaen – gwnaed un am 2 flynedd yn flaenorol tan 31.03.2023.

14. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Bydd y Clerc yn anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 30.04.2023. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

15. **Archwilio allanol** – derbyniwyd gwybod gan Mr Deryck Evans, Archwilio Cymru (ar 17.04.2023) fod popeth yn iawn hefo'r archwiliad allanol am y flwyddyn yn diweddu 31.03.2022.

Mae'r drefn ar gyfer archwilio allanol wedi newid yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, sef fod archwiliad llawn yn cael ei gynnal bob 3 mlynedd, a'r flwyddyn yn diweddu Mawrth 2022 oedd yr un llawn ar gyfer Cyngor Cymuned Llanystumdwy.
Bydd y ffurflen flynyddol yn cael ei gosod ar y wefan, a'r 'Hysbysiad o Gasgliad Archwilio a'r Hawl i Archwilio'r Ffurflen Flynyddol'.
Mae nifer o gynghorau yn dal i aros am ymateb ganddynt yn nol Un Llais Cymru, ond o leiaf mae popeth mewn trefn gennym, a gall y Clerc baratoi y dogfennau archwilio ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diweddu Mawrth 2023 rwan.  Byddant yn cael ei rhoi i Cyngor Gwynedd fel archwiliad mewnol o fewn yr wythnosau nesaf.

16. **Praesept** – wedi derbyn yr hanner cyntaf, sef £9,500 ar 28.04.2023.

17. **Yswiriant Zurich**
Wedi derbyn manylion newydd am 01.06.2023 ymlaen. **Maent y cynnig polisi yswiriant o £764.44 am un flwyddyn, neu £712.79 yn flynyddol am y 3 mlynedd** nesaf. Maent wedi tynnu un fainc oddi ar y polisi oherwydd ei bod wedi cael ei dwyn. Y swm a dalwyd llynedd oedd £760.45.

18. **Cais am arian - Parti Unsain Ysgol Llanystumdwy**.
Derbyniwyd cais am arian gan Ms Christine Barker-Jones, Pennaeth Ysgol Llanystumdwy. Maent wedi llwyddo i gyrraedd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanymddyfri eleni, ac yn cystadlu ar ddydd Llun 29.05.2023. Mae costau teithio i Lanymddyfri yn uchel iawn, felly maent yn holi tybed a fyddai'r Cyngor Cymuned yn cyfrannu unrhyw swm tuag at ei taith i'r Eisteddfod?

19. **Costau a threuliau Cynghorwyr** – gall pob aelod hawlio £156 y flwyddyn (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol (yn cynnwys gwresogi, goleuadau, pŵer a band eang) sy'n gysylltiedig â gweithio gartref. **Bydd y Clerc wedi anfon ffurflen at bawb cyn y cyfarfod i wneud cais amdano, neu i'w wrthod.**

20. a) **Cyflog Clerc** – Ar sail gohebiaeth a dderbyniwyd gan NALC drwy Un Llais Cymru a SLCC/ALCC ar 02.11.2022, derbyniwyd tabl graddfeydd cyflog ar gyfer clercod. Ar hyn o bryd mae'r tabl yma dal i fod yn gyfredol. Felly mae cyflog y Clerc yn cychwyn ar rif 7 – 12, o'r raddfa cenedlaethol SCP. Hefyd, i gymhlethu pethau, 3 flynedd yn nol fe wnaethant newid y rhifau sydd ar y raddfa cyflog o ddechrau Ebrill 2019, oherwydd y 'cyflogau byw cenedlaethol'. Felly bydd cyflog y Clerc yn cychwyn ar rif 7 – 12, yn lle 18 – 22, o'r raddfa cenedlaethol SCP.

Felly, mae cyflog y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol o Ebrill 1af, 2023 ymlaen yn symud i fyny ar y raddfa cyflog, o **pwynt 11 i pwynt 12, sef o £12.50 i £12.73 yr awr, x 35 awr y mis = £445.55**.
Mae cyflog y Clerc yn ol y cytundeb cyflogaeth yn datgan:-

1. **"Cyflog**
   1.1 "Mae eich cyflog yn unol â phwynt cyflog NJC ar gyfer clercod rhan amser sef ar raddfa LC1 – SCP 18-22.
   **1.2** Ar yr amod fod eich perfformiad yn foddhaol, byddwch yn symud yn awtomatig drwy'r raddfa gyflog trwy godiadau blynyddol hyd nes ichi gyrraedd uchafbwynt y raddfa. Bydd eich codiad cyflog cyntaf yn daladwy ar 1 Ebrill 2019 ac wedi hynny ar 1af Ebrill bob blwyddyn hyd nes ichi gyrraedd uchafbwynt y raddfa. Gall y Cyngor ddal codiad cyflog yn ôl os bernir fod eich perfformiad yn is na'r disgwyl, yn dilyn adolygiad blynyddol."

**b) Costau Clerc** - mae y Clerc wedi bod yn cael £16.00 y mis ers 01.10.2018 tuag at gostau rhedeg swyddfa (yn cynnwys defnydd o ystafell, golau, gwres trydan i'r gliniadur ac argraffydd). Angen ystyried a fyddai'n bosib ei godi i fod yn **£26.00 y mis o'r 01.05.2023** ymlaen, (sef y ffigwr sydd yn cael ei ddangos ar wefan www.gov.uk o 2020 ymlaen). Mae'r wefan yn dweud nad oes angen talu treth ar y ffigwr yma os yw'r gwaith yn cael ei wneud adref, a nad yw'r ffigwr yn fwy na'r costau.

21. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris £ | TAW | Cyfanswm Taliad £ | Taliad BACS £ |
|---|---|---|---|---|---|
| ICO | Drwy ddebyd uniongyrchol | **35.00** | | **35.00** | **35.00** |

22. Cyflog mis Ebrill 2023 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm £ | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Ebrill 2023<br>35 awr y mis x £12.73 = £445.55 | 445.55 =<br>Llai treth £89.11<br>= **£356.44** | **356.44** | **356.44** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Ebrill 2023 | 445.55 x 20% =<br>**£89.11** | **89.11** | **89.11** |
| Costau swyddfa'r Clerc<br>Ebrill 2023 | £16.00 | **16.00** | **16.00** |

Bydd angen penderfynu os mai ar y nos Iau **01.06.2023** fydd y cyfarfod nesaf, yn Neuadd Llanystumdwy.
**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**